**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English.**

Dyddiad: 20 Tachwedd 2020

Annwyl Gyflogwr Taliadau Uniongyrchol,

**COVID 19 – Cynllun Gwella Tâl Salwch Statudol (TSS)**

Ysgrifennwn atoch i roi manylion i chi ar sut i gofrestru ar gyfer cynllun newydd Llywodraeth Cymru uchod. Nod y cynllun yw rhoi cymorth i weithwyr gofal y mae angen iddynt fod yn absennol o'r gwaith gan fod ganddynt COVID-19 neu yr amheuir bod ganddynt COVID-19, neu gan fod angen iddynt hunan-ynysu.

Mae'r cynllun yn galluogi cyflogwyr i dalu'r gweithiwr gofal **gyflog llawn o'r dyddiad cyntaf y bydd yn absennol.** Mae hyn yn dileu'r anfantais ariannol y mae gweithwyr gofal yn ei wynebu trwy fod yn absennol o'r gwaith. Bydd hyn yn helpu i amddiffyn dinasyddion agored i niwed ac yn cefnogi'r broses o reoli'r haint.

Ar hyn o bryd, bydd y cynllun ar waith o 1 Tachwedd 2020 tan 30 Medi 2021.

**<u>Pwy sy'n gymwys</u>**

Mae Cynorthwy-ydd Personol (CP) a delir trwy'r cynllun Taliadau Uniongyrchol yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn os nad yw ei gontract cyflogaeth yn cynnig tâl llawn am absenoldeb oherwydd salwch.

Os nad yw un o'ch Cynorthwywyr Personol yn gallu dod i'r gwaith gan ei fod:

1. â symptomau COVID-19 (dylai gael prawf heb oedi - mae manylion ar gael yn yr adran canllawiau isod)
2. wedi cael prawf COVID-19 positif
3. yn hunan-ynysu gan ei fod wedi'i nodi'n gyswllt gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) GIG Cymru
4. yn hunan-ynysu gan fod aelod o'i aelwyd (estynedig) yn hunan-ynysu (â symptomau COVID-19 neu wedi cael prawf positif)

gallwch hawlio naill ei holl dâl salwch neu'r rhan sydd uwchben TSS gan Gyngor Caerdydd.

Darllenwch yr arweiniad canlynol i gael cymorth.

**<u>Sut mae hawlio:</u>**

Tri cham sydd i'r cynllun:
Cam 1 – Ffurflen Datgan y Cyflogai
Cam 2 – Deall y canllawiau a chefnogi eich cyflogai
Cam 3 – Hawlio

**Cam 1 – Ffurflen Datgan y Cyflogai**

Rhaid i'r holl Gynorthwywyr Personol gwblhau Ffurflen 1 - ffurflen Datgan y Cyflogai a'i dychwelyd atoch. Gallant gwblhau'r ffurflen yn electronig a naill ai ei hanfon atoch dros e-bost neu ei rhoi i chi. Dylech gadw'r ffurflen rhag ofn y bydd angen i chi hawlio o'r cynllun.

Mae'r ffurflen ar gael o wefan CBA Dewis https://bit.ly/3bX70XW yn yr adran Cynllun Gwella TSS. Os nad yw eich CP yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd, cysylltwch â ni i ofyn am gopi papur trwy ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y llythyr hwn.

**Bydd angen i chi gadw'r ffurflenni hyn at ddibenion archwilio/cadarnhau. Dylid cadw'r holl ddogfennau mewn amgylchedd diogel am o leiaf 24 mis.**

**Cam 2 – Deall y canllawiau a chefnogi eich cyflogai**

Fel cyflogwr, mae angen i chi ddeall y meini prawf cymhwysedd a'r canllawiau, a sicrhau bod eich PA yn gwybod beth y mae ganddo hawl i'w gael.

Mae cynllun arall ar gael - **Cynllun Cymorth Hunan-ynysu.** Mae angen i chi ddeall y ddau gynllun er mwyn helpu eich CP i benderfynu pa gynllun sydd orau iddo ac ar ba adeg i hawlio o'r naill gynllun neu'r llall. **Dim ond o un cynllun ar y tro y gall hawlio.** Rydym yn eich annog yn gryf i ddod yn gyfarwydd â'r ddau gynllun. **Mae dolenni at yr holl ganllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.**

**Cyfrifoldeb y CP yw cofrestru ar gyfer, a hawlio o, naill ai'r cynllun Gwella TSS neu'r cynllun Cymorth Hunan-ynysu ar gyfer pob cyfnod perthnasol o absenoldeb ac i roi gwybod i chi os bydd yn newid o un cynllun i'r llall.**

**Cam 3 – Hawlio**

Os nad yw eich CP yn gallu dod i'r gwaith, dylai gysylltu â chi yn unol â'ch gweithdrefn rhoi gwybod am absenoldeb oherwydd salwch arferol.

Os oes symptomau COVID-19 ganddo, bydd disgwyl iddo gael prawf COVID-19 ar unwaith a dychwelyd i'r gwaith cyn gynted ag y gall. Gellir trefnu prawf trwy CBA Dewis (gweler y dolenni at ganllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn).

Bydd angen i chi gadarnhau a yw'n gymwys ar gyfer y cynllun Gwella TSS. Os yw'n gymwys ac am hawlio, dylid nodi hyn ar ei daflen amser a nodi'r rheswm cymwys (rhif 1,2,3 neu 4 uchod).

Wrth gyflwyno gwybodaeth cyflogres i CBA Dewis, bydd angen i chi gadarnhau a yw hawliad yn cael ei wneud trwy'r cynllun Gwella TSS ac os felly, am ba reswm wedi ei rifo uchod. Rhaid i chi fod â ffurflen Datgan wedi ei chwblhau cyn hawlio.

**ATEBWCH I: Cynllun Gwella Tâl Salwch Statudol, Ystafell 342, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW**
**E-bost: CynllunTChTSS@caerdydd.gov.uk**

Ar ôl proses y gyflogres, bydd CBA Dewis yn cyflwyno'r wybodaeth i Gyngor Caerdydd ar eich rhan. Bydd Cyngor Caerdydd wedyn yn trefnu i daliad gael ei wneud i'ch cyfrif banc Taliad Uniongyrchol dynodedig.

**Canlyniadau Profion COVID-19**

Canlyniad Prawf Positif - Os caiff eich CP brawf positif, ystyrir hyn yn **gyfnod newydd ac ar wahân o absenoldeb.** Dylai roi copi o ganlyniad y prawf i chi. Ar y cam hwn, gall eich CP ddewis gwneud cais trwy'r cynllun Cymorth Hunan-ynysu yn lle (os yw'n gymwys) gan y gall fod o fudd ariannol mwy iddo. Rhaid iddo roi gwybod i chi ar unwaith pa gynllun yr hoffai hawlio ohono ar gyfer y cyfnod newydd hwn o absenoldeb. **Ni ellir gorgyffwrdd y cynlluniau.**

Canlyniad Prawf Negyddol - Os caiff eich CP brawf negyddol, dylai ddychwelyd i'r gwaith os gall. Os yw dal yn sâl oherwydd salwch gwahanol, bydd y cynllun Gwella TSS yn dod i ben a bydd ei gyflog ar gyfer gweddill y cyfnod y bydd yn absennol yn lleihau i'r hyn y byddai fel arfer yn ei gael am absenoldeb oherwydd salwch. Dylai roi copi o ganlyniad y prawf i chi.

**Canllawiau**

I gael mwy o wybodaeth, gweler y Cwestiynau Cyffredin neu Ffurflen 1 - ffurflen Datgan y Cyflogai sydd wedi'u hatodi.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y Cynllun Gwella TSS yn:
https://llyw.cymru/cynllun-ychwanegiad-dal-salwch-statudol-ar-gyfer-covid-19

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y Cynllun Cymorth Hunan-ynysu yn:
https://llyw.cymru/cynllun-cymorth-hunanynysu

Gall CP hefyd gael gwybod a ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Gwella TSS yma:
https://llyw.cymru/cynllun-ychwanegiad-dal-salwch-statudol-ar-gyfer-covid-19-offeryn-gwirio-pwy-syn-gymwys

Gall CP drefnu prawf COVID-19 trwy CBA Dewis:
https://dewiscentreforindependentlivin.eu.rit.org.uk/cyfieithiad-cymraeg

**Mae'r wybodaeth hon ar wefan CBA Dewis** https://bit.ly/3bX70XW

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, siaradwch â'ch ymgynghorydd CBA Dewis trwy ffonio**
**02922 40 50 60.**

Yr eiddoch yn gywir,

Tîm y Cynllun Gwella TSS

**ATEBWCH I: Cynllun Gwella Tâl Salwch Statudol, Ystafell 342, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW**
**E-bost: CynllunTChTSS@caerdydd.gov.uk**